



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	22 Medi 2021
TEITL	Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Ar sail gwariant ac incwm y chwarter cyntaf ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhaon rheolwyr, mae'r adolygiad cychwynnol yma yn rhagweld tanwariant net o (£48,805) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22.
- 1.2 Mae effaith Covid-19 yn parhau i effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Adeilad:**

Chwarter 1: gorwariant £24,514.

Mae'r gyllideb yma yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil y pandemig mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd rhithiol.

Nid yw swyddogion GwE yn ôl yn y swyddfa ar hyn o bryd, ond mae'n bosib bydd hyn yn newid cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fel man cychwyn ar y pennawd hwn, disgwylir diffyg incwm ar gyfer 5 mis cyntaf y flwyddyn ariannol, gan nad oes unrhyw ddefnydd o ystafelloedd GwE wedi ei gwneud o Ebrill hyd at Awst. Mae posib i'r diffyg incwm gynyddu os na fydd staff yn gwneud defnydd o'r swyddfeydd yn ystod y flwyddyn.

2.2 **Cludiant:**

Chwarter 1: tanwariant (£73,319).

Mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid-19. Bydd y pennawd hwn yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio.

2.3 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

Chwarter 1: niwtral.

Yn sgil yr argyfwng Covid-19 fe roddwyd hawl un-tro gan Llywodraeth Cymru i gario unrhyw danwariant yn erbyn grant 2020/21 ymlaen i'w wario hyd at 31/08/2021. Fe drosglwyddodd £997k o grant o'r flwyddyn 2020/21. Mae hwn bellach wedi ei wario o fewn y cyfnod.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2021/22 oedd £563,530.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £612,335 ar ddiwedd 2021/22, wedi ystyried y tanwariant a ragwelir uchod.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad Chwarter 1af.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.